Cath Elmer
Caerdydd
Mai 2024

Arcadis
Tŷ Hodge
Caerdydd

Annwyl dîm Recriwtio Arcadis,

Rwyf yn ysgrifennu i wneud cais am eich lleoliad Ymgynghorydd Costau a hysbysebwyd yn Bright Network. Rwyf yn mwynhau gweithio gyda phobl yn fawr iawn ac mae'r posibilrwydd o gyfuno hyn â fy niddordeb ym myd cyllid wedi fy nenu i'r cyfle cyffrous hwn i weithio gyda chleientiaid a rhoi cyngor priodol.

Ar hyn o bryd rwyf ym Mlwyddyn 2 fy BSc Mathemateg ym Mhrifysgol Caerdydd, cwrs oedd yn ddewis hawdd imi. Rwyf wedi meddu ar ddawn naturiol erioed i adnabod patrymau, datrys problemau a rhagori'n rhifyddol, ac rwy wedi mwynhau fy ngradd hyd yn hyn yn fawr iawn. Rwyf wedi ymchwilio i'r opsiynau niferus sydd ar gael i fyfyriwr Mathemateg, ond fy marn i o hyd yw bod y sector cyllid yn faes a fydd yn caniatáu imi weithio gyda datrysiadau bywyd go iawn er budd cleientiaid a chwsmeriaid.

Mae ymchwilio i'r gwaith rydych yn ei wneud yn Arcadis wedi bod yn ddiddorol iawn ac rwyf yn falch iawn o wybod am y gwaith rydych yn ei wneud i leihau eich ôl troed carbon. Taniwyd fy niddordeb yn dilyn eich datganiad i'r wasg yn ddiweddar ynghylch y ffordd y mae Arcadis yn annog llywodraeth Awstralia i gysoni'r prosiect rheilffyrdd mewndirol â threnau sy'n cael eu pweru gan hydrogen, gan eu gwneud yn llai costus a dileu allyriadau. Rwyf yn awyddus i fod yn rhan o brosiectau er budd cymunedau lleol a'r amgylchedd. Mae annog cydweithio, mynnu bod cleientiaid yn llwyddo a'r awydd i weithwyr feddu ar uniondeb, oll yn gysyniadau rwy'n credu ynddynt.

Y tu allan i fy astudiaethau mae gen i ddwy rôl ran-amser – rwy'n farmon mewn bwyty prysur yng Nghaerdydd, yn ogystal ag yn gynrychiolydd myfyrwyr ail flwyddyn yr Ysgol Mathemateg. Yn sgil gweithio yn y sector lletygarwch, rwy bellach yn fwy hyderus. Mae'r Ivy yng Nghaerdydd yn ymfalchïo yn ei henw da am wasanaeth cwsmeriaid rhagorol ac yn gofalu bod ei chwsmeriaid yn deyrngar. Yn y rôl hon rwyf wedi meithrin dawn naturiol i gychwyn sgwrs ar y lefel briodol yn ogystal â'r gallu i weithio'n gyflym ac yn effeithlon, yn aml o dan cryn bwysau amser. Rwyf wedi dysgu pwysigrwydd deall cynnyrch yn drylwyr a rhoi gwasanaeth sy'n gweddu i'r sefydliad. Sgiliau yw'r rhain rwyf yn gobeithio eu rhoi ar waith wrth weithio gyda chwsmeriaid Arcadis, a hynny er mwyn sicrhau y bydd cleientiaid yn dychwelyd atom dro ar ôl tro. Mae cynrychioli fy nghyd-fyfyrwyr wedi bod yn fraint yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac mae'r rôl yn un, gredaf, fy mod wedi'i chymryd o ddifrif ac mewn ffordd gydwybodol. Peth pwysig i mi yw y gall eraill ddibynnu arnaf i eirioli ar eu rhan. Mae mynd i'r afael â phryderon fy nghyfoedion a gallu mynegi'r rhain yn gryno ac yn gywir yn sgil rwyf wedi'i hogi ac yn un yr hoffwn ei datblygu yn y rôl hon.

Rwy'n gobeithio bod fy nghais yn dangos fy mod wedi dechrau meithrin y set sgiliau gywir i fod o fudd i Arcadis. Edrychaf ymlaen at glywed gennych a diolch yn fawr ichi am eich amser a'ch ystyriaeth.

Yn gywir,

Cath Elmer